

Adroddiad Arolygu Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Yr Adran Meddygaeth Niwclear,
Ysbyty Glan Clwyd, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 16 ac 17 Mai 2023

Dyddiad cyhoeddi: 17 Awst 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym.....	9
• Ansawdd Profiad y Claf.....	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	22
4. Y camau nesaf	27
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	28
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....	29
Atodiad C - Cynllun gwella.....	30

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) o'r Adran Meddygaeth Niwclear yn Ysbyty Glan Clwyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 16 ac 17 Mai 2023. Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ystyried y ffordd roedd yr adran yn cydymffurfio â'r Rheoliadau ac yn bodloni'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC a Chynghorydd Gwyddonol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA), a gyflawnodd swyddogaeth gynghori. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o dri holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 16 gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y cleifion am eu profiadau wrth fynychu'r adran. Fodd bynnag, roedd hyn ond yn seiliedig ar dri holiadur cleifion a gwblhawyd.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion yn yr adran meddygaeth niwclear o fewn yr adran radioleg ac roedd y staff yn trin y cleifion mewn ffordd garedig, barchus a phroffesiynol.

Roedd trefniadau digonol ar waith i ddiwallu anghenion cyfathrebu'r cleifion sy'n mynychu'r adran. Fodd bynnag, roedd y wybodaeth ategol a anfonwyd at gleifion gyda'r llythyrau apwyntiadau yn Saesneg yn unig.

Roedd sawl aelod o'r adran yn gallu siarad Cymraeg a oedd yn golygu y gallai'r gwasanaeth ddarparu'r "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg i'r cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Darparu'r holl wybodaeth i'r cleifion yn ddwyieithog
- Sicrhau bod y staff yn gallu gweld y cleifion yn yr adran yn glir.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Sylwadau cadarnhaol iawn am brofiad y claf
- Hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion
- Defnyddio nifer o adnoddau cyfathrebu i helpu pobl sydd ag anawsterau cyfathrebu.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Yn gyffredinol, roedd lefelau cydymffurfiaeth da â Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Gwelsom fod trefniadau ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion a oedd yn ymweld â'r adran.

Dangosodd y wybodaeth a roddwyd fod y gwasanaeth wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i atal a rheoli heintiau yn effeithiol yn yr adran.

Roedd y wybodaeth a roddwyd ynghylch gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr yn dda a byddai'n elwa ymhellach ar rannu gwersi a ddysgwyd ar draws y tair set o weithdrefnau sy'n cael eu defnyddio.

Roeddem o'r farn nad oedd y lleoliad lle caiff therapïau meddygaeth niwclear eu darparu yn addas at y diben.

Nodwyd rhai mân faterion i wella cydymffurfiaeth â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Yr ardal lle caiff therapïau meddygaeth niwclear eu darparu
- Rhannu gwersi a ddysgwyd a gwybodaeth rhwng y tair set o weithdrefnau'r cyflogwr sy'n ymwneud â meddygaeth niwclear, ffiseg feddygol a radiofferylliaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mae pob aelod o'r staff yn deall eu rolau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017
- Prosesau atal a rheoli heintiau effeithiol
- Gweithdrefnau ysgrifenedig y cyflogwr.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd gan y strwythur rheoli linellau adrodd clir ac roedd trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i gefnogi camau parhaus i gydymffurfio â'r rheoliadau. Roedd arweinyddiaeth amlwg a chefnogol i'w gweld yn glir yn yr adran.

Dangosodd y staff eu bod yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau cywir i ymgymryd â'u priod rolau yn yr adran.

Roedd yr adborth a gafwyd gan y staff yn yr holiaduron yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda rhai ymatebion cymysg mewn rhai meysydd.

Roedd cofnodion hyfforddiant y staff, mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w maes gwaith a bod eu cymhwysedd wedi cael ei asesu. Dylid eu hadolygu bob blwyddyn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Adolygu'r cofnodion ynghylch hawliau a hyfforddiant bob blwyddyn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cofnodion cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol y staff yn dda
- Cyfradd gydymffurfio o 100% ag arfarniadau blynyddol
- Tîm rheoli effeithiol a gweladwy a gymerodd ran gadarnhaol yn y broses arolygu.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, defnyddiodd AGIC holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofawyr. Gan mai dim ond tri ymateb a gwblhawyd, mae angen cadw'r nifer bach hwn mewn cof wrth ystyried yr ymatebion hyn.

Ar y cyfan, dywedodd pob un o'r cleifion fod y gwasanaeth roeddent wedi'i gael yn dda iawn. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Roedd y staff yn ardderchog, diolch.”

“Trafferth parcio yn yr ysbyty yn ôl yr arfer. Roedd y staff yn siriol ac yn broffesiynol. Cefais ddigon o wybodaeth ganddynt cyn, yn ystod ac ar ôl y sgan.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Roedd posteri wedi'u harddangos yn glir yn yr adran yn hysbysu'r cleifion y dylid rhoi gwybod i'r staff os oeddent yn feichiog neu'n bwydo ar y fron. Hefyd gwelsom amrywiaeth o ddeunydd hybu iechyd arall wedi'i arddangos ger prif ardal y dderbynfa, gan gynnwys gwybodaeth ddwyieithog.

Gofal Urddasol a Pharchus

Gwelwyd y staff yn trin pobl â pharch a charedigrwydd, gan gyfathrebu mewn ffordd gyfeillgar a helpu'r cleifion i gyrraedd yr adran berthnasol. Clywsom y staff yn siarad â'r cleifion yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan alw'r cleifion yn ôl eu henw, rhoi amser iddynt, bod yn gefnogol ac esbonio unrhyw oedi fel y bo'n briodol. Roedd y staff yn gynnig ac yn sensitif wrth siarad â'r cleifion ac wrth siarad ag aelodau eraill o'r staff am y cleifion.

Roedd ystafell aros yr adran meddygaeth niwclear yn fawr ac yn lân, ac roedd digon o seddi a dŵr ar gael. Fodd bynnag, nid oedd modd gweld yr ardal aros o ddesg y dderbynfa (lle roedd y staff). Ni allai'r staff weld y cleifion pan oeddent yn eistedd yn ardal y dderbynfa o'u man gwaith. Pe bai cleifion sy'n eistedd yma yn mynd yn sâl, ni fyddai staff y dderbynfa yn eu gweld.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd sicrhau y gall y staff weld y cleifion yn glir unwaith y byddant yn cyrraedd yr adran.

Roedd ystafell newid ar gael i'r cleifion ei defnyddio ac roedd ystafelloedd ar gael i'r staff siarad â'r cleifion lle na allai pobl eraill eu clywed. Roedd drysau'r ystafelloedd trin yn cael eu cau pan fyddent yn cael eu defnyddio.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn gallu siarad â'r staff heb i gleifion eraill eu clywed. Gwnaethant ddweud eu bod yn cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision y driniaeth a'u bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent mewn penderfyniadau am eu triniaeth.

Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo hawliau'r cleifion pan fyddent yn mynychu'r adran. Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal ac roedd bron pob un yn credu bod y cleifion yn cael gwybodaeth am benderfyniadau ynghylch eu gofal a'u cynnwys yn y penderfyniadau hyn. Roedd pob un yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn ei roi i gleifion.

Gofal wedi'i Deilwra at yr Unigolyn

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod yr amser aros rhwng atgyfeiriad a'u hapwyntiad yn rhesymol a'u bod wedi gallu dod o hyd i'r adran yn hawdd. Yn ogystal, dywedodd pob un o'r cleifion fod y staff yn esbonio beth roeddent yn ei wneud a bod y staff yn gwrando arnynt ac yn ateb eu cwestiynau. Er bod pob un o'r cleifion yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu amdanynt eu hunain yn dilyn eu triniaeth, nid oedd un claf yn cytuno ei fod wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig am bwy i gysylltu â nhw am gyngor ar unrhyw ôl-ffeithiau.

Roedd yr adran wedi cyflwyno'r fersiwn Gymraeg o'r ddogfen "Delweddu meddygol: beth mae angen ichi wybod" a oedd wedi cael ei chyfieithu'n ddiweddar gan Fforwm Ansawdd Delweddau Cymru Gyfan gyda chaniatâd gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA).

Amserol

Gofal Amserol

Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn cael sylw mewn da bryd a disgrifiwyd trefniadau i roi gwybod i'r cleifion am oedi wrth ddarparu eu triniaethau. Gwelsom brosesau cyfathrebu anffurfiol da â'r cleifion er mwyn rhoi gwybod iddynt am unrhyw oedi ar yr uned. Dywedwyd wrthym fod rhestrau aros wedi'u cysoni ar draws y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod gwaith yn cael ei ddosbarthu'n deg.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd system dolen sain ar gael a dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym y gellid gwneud trefniadau ychwanegol, lle bo angen, pe bai gan gleifion unrhyw ofynion cyfathrebu eraill. Cadarnhaodd y staff fod mynediad at wasanaethau ar gael i gynorthwyo a pe bai claf yn dod i'r uned a methu cyfathrebu yn Saesneg, gallent drefnu cyfieithydd ar gyfer apwyntiad y claf. Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth print bras ar gael ar gais hefyd.

Cawsom wybod bod gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei darparu i'r claf cyn y sgan. Gwelsom enghreifftiau hefyd o wybodaeth benodol am y sgan a oedd yn cael ei hanfon gyda'r llythyr apwyntiad. Cadarnhawyd bod y cleifion yn deall y wybodaeth hon pan oeddent yn cyrraedd.

Roedd gwybodaeth ddwyieithog ar gael a gwelsom fod sawl aelod o'r staff yn gwisgo bathodyn Cymraeg i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Gallai'r cleifion gael y rhan fwyaf o'r triniaethau yn Gymraeg, os nad pob un. Hefyd, clywsom y staff yn siarad Cymraeg â'r cleifion ac â'i gilydd.

Hawliau a Chydraddoldeb

Nodwyd bod mynediad i gadeiriau olwyn ym mhob rhan o'r adran. Er bod gwybodaeth cyn triniaeth yn cael ei hanfon yn Saesneg yn unig, roedd ar gael yn Gymraeg. Dywedwyd wrthym y caiff camau eu cymryd i gysylltu â chleifion nad oeddent yn mynychu er mwyn sicrhau bod apwyntiad arall yn cael ei drefnu. Byddai plant yn cael eu cefnogi gan rieni / gwarcheidwaid ac roedd polisi a chanllawiau effeithiol ar waith ar gyfer gofalwyr a chysurwyr. Cadarnhaodd y staff y ffordd y caiff sgysiau eu cynnal gyda chleifion a gofalwyr sydd â heriau o ran gallu. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau eu bod yn deall a defnyddio'r gofalwr neu eiriolwr yn dibynnu ar bwy sydd ar gael.

Dylai'r holl wybodaeth a gaiff ei hanfon at y cleifion cyn triniaethau fod yn ddwyieithog.

Roedd pob claf yn gwybod sut i gwyno am wasanaeth gwael, pe bai angen. Dywedodd pob un o'r cleifion fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch a bod mesurau wedi'u rhoi ar waith i amddiffyn eu preifatrwydd.

Dim ond un claf wnaeth nodi mai Cymraeg oedd ei ddewis iaith ac nad oedd y cyfle i siarad Cymraeg wedi cael ei gynnig yn ystod ei daith fel claf. Fodd bynnag, dywedodd fod gwybodaeth ar gael iddo yn Gymraeg.

Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau i ddiogelu a hyrwyddo hawliau'r cleifion pan fyddent yn mynychu'r adran.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Cyn ein harolygiad, gofynnodd AGIC i uwch-aelodau o staff yr adran gwblhau a chyflwyno holiadur hunanasesu. Nod y broses hon oedd rhoi gwybodaeth fanwl i AGIC am yr adran a pholisïau a gweithdrefnau allweddol y cyflogwr mewn perthynas â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017. Defnyddiwyd y ddogfen hon i lywio'r dull arolygu.

Dychwelwyd yr holiadur hunanasesu i AGIC o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno, ac roedd yn gynhwysfawr. Lle roedd angen gwybodaeth ychwanegol neu eglurder arnom o ran yr ymatebion yn yr hunanasesiad, cawsom hyn yn ddi-oed gan uwch-aelodau o'r staff.

Dyletswyddau'r Cyflogwr: Sefydlu Gweithdrefnau, Protocolau a Rhaglenni Sicrhau Ansawdd Cyffredinol

Gweithdrefnau a Phrotocolau

Roedd gweithdrefnau a phrotocolau'r cyflogwr a ysgrifennwyd ac a ddarparwyd fel rhan o'r holiadur hunanasesu o safon dda. Roeddent yn cynnwys pwyntiau da a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod ble i ddod o hyd i'r gweithdrefnau ysgrifenedig a oedd yn berthnasol i'w hymarfer a gwnaethant ddweud eu bod yn glir ac yn hawdd eu deall. Dywedodd yr uwch-aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw fod y gweithdrefnau ar gael i'r staff drwy fewnwyd y bwrdd iechyd ac ardal a rennir o'r enw SharePoint.

Nodwyd tair set o weithdrefnau'r cyflogwr yn ystod yr arolygiad, ar gyfer meddygaeth niwclear, ffiseg feddygol a radiofferylliaeth. Byddai'r adrannau yn elwa ar rannu gwersi a ddysgwyd a gwybodaeth o fewn y gweithdrefnau hyn. Mae'r gwersi hyn yn cynnwys yr arferion da yn y weithdrefn ar gyfer adnabod cleifion a dileu cyfeiriadau at dystysgrifau'r Pwyllgor Cynghori ar Roi Sylweddau Ymbelydrol o'r gweithdrefnau radiofferylliaeth.

Dylai'r tair set o weithdrefnau'r cyflogwr rannu gwersi a ddysgwyd a gwybodaeth â'i gilydd.

Canllawiau Atgyfeirio

Nododd yr holiadur hunanasesu fod y canllawiau atgyfeirio wedi'u nodi yn y weithdrefn radioleg ar gyfer hawliau. Roedd y canllawiau i-Refer ar gael ar y

fewnrwyd ac roedd atgyfeirwyr yn cael gwybod drwy'r hysbysiad blynyddol. Ar gyfer atgyfeirwyr anfeddygol, byddai eu canllawiau atgyfeirio yn cael eu cynnwys yn eu llythyr hawliau ac ar eu hysbysiad adnewyddu blynyddol hefyd.

Er bod y meini prawf atgyfeirio nodau sentinel ar gyfer y pen a'r gwddf yn fanwl ac wedi'u cynnwys yn Natganiad o Ddiben yr adran Radioleg ar gyfer y driniaeth hon, nid oedd unrhyw ganllawiau atgyfeirio ar waith ar gyfer triniaethau i gynnal biopsi o nodau lymff sentinel.

Roedd angen canllawiau atgyfeirio ar gyfer biopsïau o nodau lymff sentinel.

Roedd y weithdrefn ar gyfer rhoi hawliau i atgyfeirwyr anfeddygol wrthi'n cael ei diwygio'n sylweddol ac esboniodd uwch-aelodau o'r staff y ffordd roedd y weithdrefn hon yn cael ei hadolygu. Roedd hyn yn cynnwys dilyn canllawiau Sefydliad Radioleg Prydain a dileu hawliau'r atgyfeirwyr anfeddygol hynny a oedd wedi atgyfeirio y tu hwnt i'w cwmpas.

Nid oedd gwybodaeth am risgiau ymbelydredd o driniaethau meddygaeth niwclear wedi'i chynnwys yn y llythyr at atgyfeirwyr sydd â hawliau.

Mae angen i'r wybodaeth a gaiff ei chynnwys mewn llythyrau at atgyfeirwyr anfeddygol gynnwys risgiau ymbelydredd.

Lefelau Cyfeirio Diagnostig

Roedd lefelau cyfeirio diagnostig wedi'u harddangos yn yr ystafell pigiadau ac roeddent yn cael eu pennu'n flynyddol yn seiliedig ar ganllawiau'r Pwyllgor Cynghori ar Roi Sylweddau Ymbelydrol. Roedd y lefelau cyfeirio diagnostig a roddwyd yn cael eu cofnodi ar y daflen ddydd ar gyfer y pigiadau ac ar y ffurflen gais hefyd.

Nid oedd y siart lefelau cyfeirio diagnostig a oedd wedi'i harddangos yn cynnwys yr amrediadau derbyniol.

Byddai'n fuddiol i'r siart lefelau cyfeirio diagnostig a oedd yn cael ei harddangos gynnwys amrediad derbyniol y gweithgareddau i'w gweinyddu.

Ymchwil Feddygol

Roedd gweithdrefn ar waith gan y cyflogwr ar gyfer ymchwil sy'n ymwneud ag ymbelydredd ìoneiddio ac ymbelydredd nad yw'n ìoneiddio.

Roedd yr holiadur hunanasesu yn cynnwys y trefniadau llywodraethu sydd ar waith ar gyfer treialon ymchwil sy'n ymwneud â chysylltiadau ymbelydredd ìoneiddio yn

ogystal â disgrifiad cryno o'r ffordd y pennwyd cyfyngiadau dosau a'r mesurau sydd ar waith i sicrhau y cydymffurfiwyd â'r rhain.

Hawliau

Roedd yr holiadur hunanasesu yn esbonio sut roedd y cyflogwr wedi dirprwyo'r dasg o gynnal dyletswyddau'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) i bobl eraill drwy'r Polisi Diogelu rhag Ymbelydredd Ïoneiddio, a oedd yn nodi cyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd, Cyfarwyddwyr y Bwrdd, Penaethiaid Adrannau ac unigolion.

Roedd yn rhaid i atgyfeirwyr nad oeddent wedi'u cymhwysu'n feddygol gwblhau rhaglen hyfforddiant a gwneud cais ffurfiol am hawl - adolygir hyn drwy banel radioleg a fydd yna'n rhoi hawl ffurfiol i'r unigolyn os caiff y cais ei dderbyn a'i ychwanegu at y gofrestr.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'u hawl drwy ddogfennaeth y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) a llythyrau hawl. Roedd y staff yn cael gwybod am newidiadau i weithdrefnau ysgrifenedig ar lafar a thrwy e-bost.

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff broses glir ar gyfer hawl deiliaid dyletswydd. Roedd y broses hon wedi'i hadlewyrchu yng ngweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr i nodi unigolion sydd â hawl i fod yn atgyfeiriwr, yn ymarferydd neu'n weithredwr o fewn maes ymarfer penodedig.

Adnabod Cleifion

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith i adnabod yr unigolyn a fyddai'n dod i gysylltiad ag ymbelydredd Ïoneiddio yn gywir.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio gweithdrefn y cyflogwr i adnabod unigolion yn gywir. Roedd hyn yn cynnwys sut i adnabod unigolion yn gywir nad ydynt efallai yn gallu adnabod eu hunain.

Unigolion o Oedran Beichiogi (Holi am Feichiogrwydd)

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer gwneud ymholiadau mewn perthynas ag unigolion o oedran beichiogi i nodi a oedd yr unigolyn yn feichiog neu'n bwydo ar y fron neu a allai hynny fod yn bosibl.

Roedd y staff yn gallu disgrifio'r weithdrefn ar gyfer holi unigolion o oedran beichiogi er mwyn sicrhau nad oeddent yn feichiog nac yn bwydo ar y fron. Roedd hyn yn cynnwys y weithdrefn lle mae'n bosibl na fyddai unigolion yn gallu ymateb i'r ymholiad hwn.

Manteision a Risgiau

Esboniodd y staff sut y byddent yn sicrhau bod unigolion neu eu cynrychiolwyr yn cael digon o wybodaeth am y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r dos ymbelydredd o gysylltiadau. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus y byddent yn gallu sicrhau bod unigolion neu eu cynrychiolwyr yn cael digon o wybodaeth am y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r dos ymbelydredd o gysylltiadau.

Gwerthusiadau Clinigol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer cynnal a chofnodi gwerthusiad ar gyfer pob cysylltiad meddygol a gyflawnir yn yr adran.

Roedd y sampl o ffurflenni atgyfeirio y gwnaethom eu harchwilio yn cynnwys pum ffurflen atgyfeirio ôl-weithredol. Roedd y rhain yn dangos tystiolaeth bod gwerthusiad clinigol amserol wedi'i gwblhau.

Cysylltiadau â Delweddu Anfeddygol

Nid oedd cysylltiadau â delweddu anfeddygol yn cael eu cyflawni yn yr adran.

Dyletswyddau'r Cyflogwr - Archwiliad Clinigol

Disgrifiodd yr holiadur hunanasesu y broses ar gyfer archwilio clinigol, gan gynnwys strwythur y rhaglen, grwpiau staff a deiliaid dyletswydd y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) sy'n gysylltiedig. Dywedwyd wrthym y byddai pob aelod o'r adran yn cymryd rhan yn yr archwiliadau hyn. Roedd yn rhaid i archwiliadau gael eu cofrestru'n briodol a rhaid adrodd arnynt i'r grwpiau llywodraethu amrywiol yn yr adran. Dywedwyd wrthym ei bod yn anodd cynnal archwiliadau clinigol ym maes meddygaeth niwclear am mai dim ond nifer bach o gleifion sydd.

Dyletswyddau'r Cyflogwr - Cysylltiadau Damweiniol neu Anfwriadol

Gallai'r staff y gwnaethom siarad â nhw ddisgrifio'r weithdrefn ar gyfer rhoi gwybod am gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol a sut roedd gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau yn cael eu rhannu.

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff hefyd drefniadau addas ar gyfer rhoi gwybod i'r atgyfeiriwr, yr ymarferydd a'r claf neu ei gynrychiolydd am gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol, ynghyd â chanlyniad dadansoddiad o'r digwyddiad.

Roedd astudiaeth o'r risg gysylltiedig wedi'i dogfennu ar gyfer pob therapi radioniwclid mewn dogfennau unigol a oedd yn rhan o system ansawdd Ffiseg Feddygol ISO9001. Ystyriwyd bod hyn yn enghraifft nodedig o arfer dda a chydymffurfiaeth yma.

Mewn perthynas â rhoi gwybod am ddigwyddiadau, roedd ymatebion ar yr holiadur gan y staff yn gadarnhaol ar y cyfan, fel y gwelir isod:

- Mae fy sefydliad yn ein hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau - 100%
- Mae fy sefydliad yn trin staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriad, camgymeriad a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad yn deg - 92%
- Pan roddir gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau, bydd fy sefydliad yn cymryd camau gweithredu er mwyn sicrhau na fyddant yn digwydd eto - 92%

Fodd bynnag, dim ond 58% oedd yn cytuno eu bod yn cael adborth am newidiadau a wnaed mewn ymateb i gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau y rhoddir gwybod amdanynt.

Dyletswyddau'r Ymarferydd, y Gweithredwr a'r Atgyfeiriwr

Roedd yr holiadur hunanasesu yn esbonio bod hawl gan ymarferwyr, gweithredwyr ac atgyfeiriwyr gyflawni eu dyletswyddau a oedd wedi'u cynnwys yng ngweithdrefnau'r cyflogwr.

Byddai ymarferwyr yn cael gwybod am eu hawl yn ysgrifenedig ac roeddent wedi'u cynnwys yn y matrices hawliau, a oedd yn cynnwys y cwmpas ymarfer. Ar gyfer yr archwiliadau a gynhaliwyd yn yr adran ffiseg feddygol, roedd cyfres o weithdrefnau'r cyflogwr mewn perthynas â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) a oedd yn cynnwys rhestr benodol o ymarferwyr â hawl. Cyfarwyddwyr clinigol perthnasol neu'r cyfarwyddwr therapiau oedd yn gyfrifol am hawliau drwy gymeradwyo'r gweithdrefnau hyn.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswydd o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) yn dda.

Cyfiawnhad dros Gysylltiadau Unigol

Roedd y prosesau ar gyfer rhoi cyfiawnhad a lle roedd hyn wedi'i gofnodi wedi'u disgrifio yn yr holiadur hunanasesu. Roedd y rhain wedi'u nodi yng ngweithdrefn ysgrifenedig gysylltiedig y cyflogwr.

Ni fyddai cysylltiad meddygol yn cael ei gyflawni oni fyddai wedi cael ei gyfiawnhau a'i awdurdodi gan yr ymarferydd, neu os bydd gweithredwr yn awdurdodi cysylltiad yn unol â chanllawiau a roddwyd gan yr ymarferydd.

Roedd y radiologydd ymgynghorol (a oedd hefyd yn ymarferydd) y gwnaethom siarad ag ef yn gallu disgrifio'r ystyriaethau wrth gyfiawnhau cysylltiadau. Roedd canllawiau awdurdodi ar waith a byddai angen i unrhyw beth y tu allan i'r canllawiau gael eu hadolygu gan yr ymarferydd. Roedd gwybodaeth ar gael ar SharePoint mewn perthynas â chyfiawnhau ac awdurdodi ar gyfer gofalwyr a chysurwyr.

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y broses i'w hystyried wrth gyfiawnhau cysylltiadau. Roeddent hefyd yn gwybod lle roedd awdurdodiad ar gyfer cysylltiadau yn cael ei gofnodi. Gallent hefyd ddisgrifio'r canllawiau mewn perthynas â gofalwyr a chysurwyr.

Optimeiddio

Roedd yr holiadur hunanasesu yn cynnwys enghreifftiau o'r ffordd roedd y gweithredwr yn dewis protocolau ar gyfer archwiliadau unigol er mwyn sicrhau bod y cysylltiad wedi'i optimeiddio. Roedd y rhain yn cynnwys prosesau optimeiddio pediatrig a phan oedd gan glaf boen nad oedd modd ei rheoli.

Hefyd, disgrifiodd y staff y broses i sicrhau bod y gweithgareddau a'r cysylltiadau pelydr-X a weinyddwyd mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol, gan roi sylw penodol i grwpiau penodol o gleifion.

Nodwyd yn yr holiadur hunanasesu fod pob claf meddygaeth niwclear diagnostig yn cael gwybodaeth ysgrifenedig drwy'r post (neu drwy e-bost, yn ôl y gofyn). Yn ogystal â'r llythyr apwyntiad, roedd gwybodaeth yn cael ei chynnwys a oedd yn esbonio'r prawf penodol ymhellach. Roedd manylion am y gofynion yn y weithdrefn berthnasol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyfarwyddiadau ysgrifenedig ar ôl rhoi cynhyrchion radiofferyllol.

Roedd cleifion a oedd yn cael triniaeth iodine-131 yn cael taflen gyfarwyddiadau a cherdyn pan oeddent yn gadael yr ysbyty. Roedd y rhain yn cynnwys manylion am gyfyngu ar gyswllt a chyfnodau perthnasol, ynghyd â phwynt cyswllt er mwyn cael cyngor. Ar gyfer triniaeth radiwm-223, roedd cleifion yn cael cerdyn melyn rhag ofn y byddai angen sylw meddygol arnynt o fewn wythnos i roi'r driniaeth.

Cyngor Arbenigol

Roedd yr holiadur hunanasesu yn disgrifio cyfranogiad arbenigwyr ffiseg feddygol mewn meysydd amrywiol, gan gynnwys ceisiadau'r cyflogwr ac ymarferwyr am drwyddedau ac adolygu eu statws, ymchwilio i ddiwyddiadau a hyfforddi'r staff. Roedd yr arbenigwyr ffiseg feddygol yn aelodau o bwyllgorau diogelu rhag ymbelydredd lleol a throsfwaol y bwrdd iechyd er mwyn rhoi cyngor ar agweddau ar gysylltiad meddygol. Roedd yr arbenigwyr ffiseg feddygol hefyd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd llywodraethu radioleg amrywiol.

Gwnaethom siarad ag aelodau o'r tîm ffiseg feddygol a ddywedodd fod yr adran yn cael ei rheoli drwy'r un strwythur â'r adran radioleg. Roeddent wedi'u lleoli ar yr un safle hefyd, a oedd yn golygu bod trefniadau cymorth anffurfiol yn bosibl. Disgrifiodd y staff y cymorth roeddent yn ei roi i'r adran, a oedd yn cynnwys cynnal gwiriadau sicrhau ansawdd ar gyfarpar. Roeddent yn rhoi cyngor ar hyn yn ogystal â lefelau cyfeirio diagnostig, ac roeddent yn rhan o'r gwaith o ddatblygu protocolau.

Roedd arbenigwyr ffiseg feddygol hefyd yn ymwneud â chynnal profion derbyn ar gyfarpar a dyluniad gosod a manyleb dechnegol cyfarpar. Roeddent hefyd, drwy'r pwyllgor diogelu rhag ymbelydredd, yn rhoi cyngor i'r cyflogwr ar gydymffurfio â'r rheoliadau, gan gynnwys diweddariadau ar statws trwyddedau a phryd oedd angen eu hadnewyddu.

Dywedodd y staff wrthym y gallent gael gafael ar y cyngor arbenigol hwn, eu bod yn gwybod pwy oedd yr arbenigwyr ffiseg feddygol ac y gallent gael gafael arnynt mewn modd amserol.

Cyfarpar: Dyletswyddau Cyffredinol y Cyflogwr

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith i sicrhau bod rhaglen sicrhau ansawdd yn cael ei dilyn mewn perthynas â'r cyfarpar.

Roedd yr holiadur hunanasesu yn disgrifio'r rhaglen sicrhau ansawdd sydd ar waith ar gyfer yr holl gyfarpar perthnasol, gan gynnwys y weithdrefn berthnasol a lle roedd hyn wedi'i nodi yn y weithdrefn. Roedd y rhaglen sicrhau ansawdd yn sicrhau bod y gweithgareddau a weinyddwyd yn cael eu dilysu'n gywir.

Roedd staff ffiseg feddygol yn cwblhau profion derbyn ar gyfarpar cyn ei ddefnyddio am y tro cyntaf. Roeddent hefyd yn cynnwys profion rheoli ansawdd yn rheolaidd fel y nodwyd yn y rhaglen sicrhau ansawdd. Roedd profion perfformiad rheolaidd yn cael eu cynnal gan yr adran berthnasol yn ddyddiol ac yn wythnosol.

Roedd data perfformiad yn cael eu cymharu â chanllawiau cenedlaethol perthnasol ac yn cael eu cymharu â manyleb y gwneuthurwr a chanfyddiadau'r prawf derbyn. Ymgynghorwyd ag arbenigwyr ffiseg feddygol a byddent yn rhoi cyngor ar b'un a oedd y perfformiad yn dderbyniol.

Roedd contract cynnal a chadw ar waith ar gyfer yr holl gyfarpar a oedd yn cynnwys gwaith cynnal a chadw ataliol wedi'i gynllunio yn unol ag atodlen ragnodedig wreiddiol gwneuthurwr y cyfarpar. Roedd y contract hefyd yn cynnwys trefniadau i rywun ddod allan pe bai cyfarpar yn torri ac yswiriant ar gyfer darnau. Roedd y rhaglen sicrhau ansawdd a oedd ar waith ar gyfer yr holl gyfarpar yn cynnwys lefel gwella perfformiad cyfarpar a lefel atal defnydd.

Roedd rhestr o'r cyfarpar sydd wedi'i osod yn yr adran ar gael. Ar gyfer y cyfarpar a restrwyd, roedd hyn yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol o dan y rheoliadau.

Diogel

Rheoli Risg

Nid oedd arwyddion penodol ar gyfer yr adran meddygaeth niwclear ond roedd wedi'i chynnwys yn yr ail dderbynfa radiograffeg. Nodwyd hyn mewn llythyrau apwyntiadau ac, yn yr adran, gwelwyd y staff yn helpu'r cleifion yn effeithiol i gyrraedd yr ardal gywir. Roedd y coridorau yn yr ystafelloedd aros a diagnostig ar gyfer meddygaeth niwclear yn olau, yn lân ac mewn cyflwr da gyda digon o gadeiriau.

Roedd yr adran meddygaeth niwclear yn adran hunangynhwysol ag un camera gama, gydag ystafell pigiadau ar wahân, ardal aros fach a thoiled ar wahân. Gwelsom gynlluniau a oedd yn destun achos busnes i symud yr adran meddygaeth niwclear a sganiwr tomograffeg allyriadau positron a thomograffeg gyfrifiadurol sefydlog (PET-CT) i un lleoliad, a Glan Clwyd yw'r lleoliad a ffefrir gan fwrdd y prosiect.

Roeddem o'r farn nad oedd yr ystafell a ddefnyddir ar gyfer therapïau meddygaeth niwclear yn addas at y diben. Roedd wedi'i lleoli yng nghanol yr adran ffiseg feddygol (ger Canolfan Ganser Gogledd Cymru) ac nid oedd wedi'i chyd-leoli ger ardaloedd triniaeth eraill. Byddai'r cynhyrchion radiofferyllol yn cael eu sugno i mewn i chwistrellau neu byddai capsïwlau yn cael eu mesur mewn labordy wrth ymyl yr ystafell lle roedd y pigiadau yn cael eu gweinyddu. Labordy nad oedd wedi cael ei drawsnewid yn ddigonol i ystafell ymgynghori oedd yr ystafell gweinyddu cleifion, ac mae ar wahân i ystafelloedd ymgynghori eraill. Roedd peiriant golchi dillad a oedd wedi'i ddatgomisiynu yn yr ystafell ac amrywiaeth o gyfarpar ac eitemau blêr eraill a fyddai'n ei gwneud yn anodd i lanhau'r ystafell yn effeithiol. Roedd yr adran wedi cyflwyno achos busnes i ailddylunio'r ardal hon er mwyn rhoi profiad gwell i'r cleifion, ond ni chymerwyd unrhyw gamau pellach ers cyflwyno'r achos busnes.

Gwelsom gynlluniau ar gyfer y newidiadau arfaethedig o 2021, ond nid oeddent wedi cael eu cymeradwyo na'u rhoi ar waith eto. Gwnaethom hysbysu'r Pennaeth Gwasanaethau Proffesiynol a ddywedodd wrthym wedi hynny fod y mater bellach wedi cael ei uwchgyfeirio i Gyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd a'i fod ar y gofrestr risg.

Yn ogystal, roedd yr ystafell hon ar wahân i'r ardaloedd eraill i gleifion a gall olygu na fyddai'r cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi o gymharu â

phrofiad cleifion eraill sy'n cael triniaeth ar gyfer canser (gan ddefnyddio dulliau eraill).

Mae angen gwella'r lleoliad lle caiff therapiau eu darparu.

I'r gwrthwyneb, roedd yr ystafell therapiau ar gyfer cleifion mewnol (ar y ward yn y ganolfan ganser), yn olau ac wedi'i hawyru'n dda, gyda theledu, oergell a chyfleusterau ensuite. Roedd yr ystafell wedi'i haddurno'n dda ac roedd y cyfarpar diogelu personol (PPE) a'r siambr aerglos ar gyfer gwirio ymbelydredd yn effeithiol. Nid oedd claf mewnol wedi bod yno ers mis Tachwedd 2022 am nad oedd ymarferydd a oedd yn ddeiliad trwydded. Roedd ymarferydd a oedd yn ddeiliad trwydded bellach wedi'i benodi a byddai triniaethau i gleifion mewnol yn aildechrau ym mis Mehefin 2023.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd yr amgylchedd yn ymddangos yn lân a chawsom wybod bod cyfarpar yn cael ei lanhau ar ôl pob claf ac ar ddiwedd y dydd. Roedd yr holl gyfarpar mewn cyflwr da a oedd yn golygu y gellid ei lanhau'n effeithiol. Gwelwyd blychau offer miniog, nid oeddent yn orlawn ac roeddent yn gyfredol. Roedd digon o gyfleusterau golchi dwylo ar gael ac roedd sawl gorsaf diheintio dwylo yn yr ardal. Roedd stoc o PPE ar gael i'r staff a'r cleifion.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau a dihalogi. Dywedodd pob aelod o'r staff bod polisi rheoli heintiau effeithiol ar waith yn eu sefydliad, bod amserlen lanhau effeithiol ar waith a bod PPE priodol yn cael ei ddarparu a'i ddefnyddio. Dim ond un aelod o'r staff oedd yn anghytuno â'r sylw bod yr amgylchedd yn golygu y gellid rheoli heintiau yn effeithiol.

Roedd pob un o'r cleifion o'r farn bod y lleoliad yn lân iawn ac yn cytuno bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Diogelu Plant a Diogelu Oedolion

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall pwysigrwydd diogelu a gallent ddisgrifio'r broses ar gyfer atgyfeirio, yn ogystal â rhoi manylion am y cymorth sydd ar gael yn lleol ac o fewn y bwrdd iechyd. Roedd y staff hefyd yn ymwybodol o'r polisiau a'r gweithdrefnau diogelu a oedd ar waith a ble i gael gafaél arnynt.

Roedd cofnodion hyfforddiant a arolygwyd gan AGIC yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar lefel addas.

Effeithiol

Cadw Cofnodion

Gwnaethom wirio sampl o dair dogfen atgyfeirio cleifion gyfredol a phum dogfen ôl-weithredol. Roedd yr atgyfeiriadau y gwnaethom eu gwirio wedi'u cwblhau i safon dda yn unol â chanllawiau atgyfeirio, ac roedd digon o fanylion clinigol wedi'u cynnwys. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer rheoli'r cofnodion a ddefnyddir yn yr adran.

Fodd bynnag, roedd cofnodion y system meddalwedd ymbelydredd (RADIS) yn cynnwys y lefelau cyfeirio diagnostig ac nid y gweithgareddau gwirioneddol a fesurwyd.

Rydym yn argymhell bod y gweithgareddau gwirioneddol a weinyddwyd yn cael eu cofnodi yn y cofnodion RADIS.

Effeithlon

Effeithlon

Disgrifiodd yr uwch-aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw y cynnig i gyflwyno systemau gwybodaeth radioleg electronig. Byddai hyn yn golygu bod yr un system yn cael ei defnyddio ledled Cymru a dim cofnodion papur. Hefyd, er mwyn sicrhau y cynhelir sganiau yn briodol, byddai hyn yn golygu symud cleifion o gwmpas y bwrdd iechyd yn ôl yr angen.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn cael barn y staff ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan yr Adran Meddygaeth Niwclear yn Ysbyty Glan Clwyd a'u profiad o weithio yno. Roedd yr holiadur yn ategu arolygiad AGIC a gynhaliwyd ym mis Ebrill a mis Mai 2023.

Cafwyd cyfanswm o 13 o ymatebion gan staff, ac roedd yr ymatebion ganddynt yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan gyda rhai ymatebion cymysg ynglŷn â'r lefelau staffio a phrofiad y claf. Roedd yr adborth am reolwyr llinell yn gadarnhaol ar y cyfan, ond cafwyd adborth cymysg am uwch-reolwyr. Roedd y staff yn credu bod y lleoliad yn lân a bod mesurau rheoli heintiau effeithiol ar waith. Roedd y mwyafrif o'r staff hefyd yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon ynghylch arferion clinigol anniogel. Roedd pum sylw gan staff, lle nodwyd bod lefelau staffio a rhestrau aros yn faterion allweddol.

Roedd sylwadau'r staff yn cynnwys y canlynol:

“Rwy'n falch iawn o weithio yn yr adran hon. Rwy'n edrych ymlaen at ddod i'r gwaith gan wybod ein bod ni, fel tîm, yn gwneud ein gorau glas i sicrhau ein bod yn delio â'n cleifion mewn ffordd gyfeillgar, groesawgar a deallgar. Rydym wedi cael llawer o gardiau, siocledi a negeseuon diolch gan gleifion dros y blynyddoedd, ac mae hyn yn atgyfnerthu fy nghred ein bod yn darparu gwasanaeth rhagorol.

Mae etheg waith y staff yn dda iawn ond pan fydd prinder staff am gyfnodau hir, caiff hyn ei herio a bydd morâl yn gostwng. Mae buddsoddi mewn recriwtio a hyfforddi staff yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy.

Nid yw'r trefniadau staffio yn gadarn iawn mewn rhai rhannau o'r adran, sy'n creu anawsterau pan fydd pobl ar wyliau neu'n sâl, sy'n golygu bod pobl yn gweithio ar eu pen eu hunain ar adegau. Byddwn yn hyfforddi staff yn y dyfodol agos ond bydd yn cymryd peth amser nes y bydd gennym fodel staffio cadarn. Fodd bynnag, dyma yw fy unig feirniadaeth ac rwy'n mwynhau gweithio yma. Mae fy rheolwr uniongyrchol yn gefnogol iawn ac rwy'n credu ein bod yn darparu gwasanaeth ardderchog i'n cleifion.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Prif Weithredwr y sefydliad oedd y cyflogwr dynodedig o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) a'r unigolyn hwnnw oedd â'r

cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Lle y bo'n briodol, roedd y cyflogwr wedi dirprwyo tasgau i weithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio yn y sefydliad roi'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) ar waith.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio sut roeddent yn cael gwybodaeth am eu dyletswyddau a chwmpas eu hawl o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol). Roeddent yn gwybod ble i ddod o hyd i'r gweithdrefnau ysgrifenedig a oedd yn berthnasol i'w hymarfer a gwnaethant ddweud bod y gweithdrefnau ysgrifenedig yn glir ac yn hawdd eu deall.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo bod eu rheolwr llinell yn eu cefnogi. Hefyd, dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod y rheolwyr yn amlwg iawn ac yn hawdd mynd atynt pe bai ganddynt unrhyw broblemau neu ymholiadau roeddent am eu trafod.

Gwnaed ymdrech amlwg a chadarnhaol i gymryd rhan yn y broses arolygu. Roedd yr uwch-aelodau o'r staff yn awyddus i sicrhau bod y prosesau yn gyffredol ac ar waith ar draws y bwrdd iechyd. Dangoswyd hyn gan bresenoldeb staff radioleg meddygaeth niwclear arweiniol o'r ddau brif ysbyty arall yn y bwrdd iechyd.

Gwelsom y staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd yn yr adran. Roeddent yn dîm bach a gwnaethant ddweud eu bod yn ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd oherwydd bod un aelod o staff yn absennol.

Roedd yr adran wedi cyflwyno cylchlythyr ansawdd a llywodraethu ar wahân yn ddiweddar hefyd a fyddai'n crynhoi gwybodaeth yn dilyn cyfarfodydd radioleg, ac yn cael ei defnyddio fel dogfen gyfeirio ar gyfer pob math o wybodaeth yn ymwneud ag ansawdd a llywodraethu.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Roedd lefelau cydymffurfio â hyfforddiant gorfodol yn dda yn y lleoliad. Dywedodd pob aelod o'r staff eu bod wedi cael hyfforddiant priodol er mwyn ymgymryd â'u rolau. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol i'w rôl.

Roedd tystiolaeth glir fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant addas ar gynhyrchu ymbelydredd, diogelu rhag ymbelydredd a rhwymedigaethau statudol mewn perthynas ag ymbelydredd Ïoneiddio. Mewn perthynas â chofnodion hyfforddiant, dywedwyd wrthym fod hawliau a maes ymarfer yn cael eu hadolygu fel rhan o'r broses arfarnu, ond nad oedd hyn yn cael ei gofnodi'n ffurfiol.

Dylai cofnodion hawliau / hyfforddiant gael eu hadolygu'n flynyddol a'u cofnodi'n ffurfiol mewn arfarniadau.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn credu bod y niferoedd a chymysgedd sgiliau yn ddigonol i ddiwallu anghenion y gwasanaeth, ar yr amod nad oedd unrhyw absenoldebau. Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff y cynlluniau arfaethedig i symud i'r adran newydd. Roeddent wrthi'n adolygu'r model a'r cymysgedd staffio cyn hyn. Roedd bylchau a nodwyd a chymwysterau ôl-raddedig yn cael eu hystyried ac roeddent yn gweithio drwy'r cymorth arweinyddiaeth diwygiedig. Roedd yr adran wrthi'n hysbysebu am radiolegydd ymgynghorol arall ar y pryd. Tîm bach oedd yn yr adran, wedi'i rannu rhwng tri safle ar hyn o bryd, ac nid oedd aelodau'r tîm yn credu bod y cymysgedd sgiliau yn bodloni gofynion yr adran ar hyn o bryd, ond roeddent yn credu bod ffordd o fynd i'r afael â'r mater hwn. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r staff, 62%, yn credu nad oedd digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn iawn.

Dywedodd pob aelod o'r staff eu bod wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf. Gwelwyd tystiolaeth o gydymffurfiaeth 100% ag arfarniadau.

Dywedodd pob aelod o'r staff heblaw un nad oedd eu gwaith yn andwyol i'w hiechyd ar y cyfan. Dywedodd y mwyafrif (70%) bod eu sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a llesiant, a dywedodd 77% fod eu patrwm gwaith/amser oddi ar ddyletswydd presennol yn cynnig cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Roedd bron pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael.

Ni ddywedodd unrhyw aelodau o'r staff eu bod wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd pob aelod o'r staff heblaw un eu bod wedi cael mynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle. Dywedodd pob aelod o'r staff fod y gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod sylwadau a chwynion ar lafar yn cael eu hannog a'u datrys ar y pryd. Roedd proses gwyno GIG Cymru, 'Gweithio i Wella', wedi'i harddangos mewn sawl man yn y lleoliad er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion sut i wneud cwynion.

Roedd gwybodaeth hefyd wedi'i harddangos am y gwasanaeth cyngor a chyswllt i gleifion er mwyn helpu'r cleifion i fynegi pryderon pe bai angen. Gwelsom fwrdd 'dywedoch chi, gwnaethom ni' a oedd yn dangos gwybodaeth am y ffordd roedd y sefydliad wedi dysgu a gwella yn seiliedig ar adborth a gafwyd.

O ran profiad y claf a ph'un a yw'r adran yn casglu adborth ar hyn, megis drwy arolygon cleifion, er mai dim ond 38% o'r staff oedd yn cytuno, dywedodd 31% ohonynt nad oeddent yn gwybod. O ganlyniad, dywedodd 62% o'r staff nad oeddent yn cael diweddariadau rheolaidd ar adborth ar brofiad y claf yn yr adran.

Eto, er mai dim ond 23% a ddywedodd fod adborth gan gleifion / defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau hyddysg yn eu hadran, nid oedd 54% yn gwybod.

Dywedodd cyfanswm o 77% o'r staff fod eu sefydliad yn gefnogol, a dywedodd 70% fod eu sefydliad yn cefnogi staff i nodi a datrys problemau, gyda llai (61%) yn cytuno bod eu sefydliad yn cymryd camau cyflym i wella pan fo angen.

Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd yr holiadur, heblaw un, yn cytuno mai gofalu am gleifion oedd prif flaenoriaeth eu sefydliad ac, ar y cyfan, roeddent yn fodlon ar ymdrechion y sefydliad i'w cadw nhw a'r cleifion yn ddiogel.

Byddai bron 77% o'r staff yn argymhell eu sefydliad fel lle da i weithio ynddo ac y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir pe byddai angen triniaeth arnyn nhw eu hunain neu deulu a ffrindiau.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff (77%) y gellid dibynnu ar eu rheolwr uniongyrchol i roi cymorth gyda thasg anodd yn y gwaith.

Dywedodd dros 84% fod eu rheolwr yn rhoi adborth clir iddynt ar eu gwaith a bod eu rheolwr uniongyrchol yn gofyn am eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith ar eu gwaith.

Er mai dim ond 46% o'r staff oedd yn credu bod yr uwch-reolwyr yn weladwy, dywedodd 77% fod yr uwch-reolwyr yn ymrwymedig i ofal cleifion, a dywedodd 62% fod cyfathrebu rhwng yr uwch-dîm rheoli a'r staff yn effeithiol.

O ran y ddyletswydd gonestrwydd, ymatebodd y staff fel a ganlyn:

- Rwy'n gwybod ac yn deall y ddyletswydd gonestrwydd - 73%
- Rwy'n deall fy rôl o ran cyrraedd Safonau Dyletswydd Gonestrwydd - 73%
- Mae fy sefydliad yn ein hannog i godi pryderon pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le ac i rannu hyn gyda'r claf - 91%

Roedd bron 85% o'r staff yn cytuno pe bai ganddynt bryderon am ymarfer anniogel, byddent yn gwybod sut i roi gwybod amdano, roedd 77% o'r staff yn teimlo'n

ddiogel wrth godi pryderon am ymarfer clinigol anniogel. Er mai dim ond 54% oedd yn hyderus y byddai'r eich sefydliad yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn, nid oedd 38% yn gwybod.

Dyweddodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl ac roeddent yn teimlo y gallent fynegi pryderon i uwch-aelodau o'r staff. Yr unig heriau a nodwyd oedd nifer y staff arbenigol sydd ar gael, er eu bod yn gwerthfawrogi ei bod yn anodd recriwtio oherwydd bod y staff hyn yn brin yn gyffredinol.

Dyweddodd bron pob aelod o'r staff eu bod yn gallu bodloni'r holl ofynion croes yn ystod eu hamser yn y gwaith a bod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i wneud eu gwaith.

Roedd pob aelod o'r staff yn gallu defnyddio systemau TGCh sydd eu hangen i ddarparu gofal a chymorth da i gleifion.

Dyweddodd dros 76% o'r staff eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau am newidiadau sy'n effeithio ar eu maes gwaith.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Yr Adran Meddygaeth Niwclear, Ysbyty Glan Clwyd

Dyddiad yr arolygiad: 15/16 Mai 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd unrhyw faterion y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Yr Adran Meddygaeth Niwclear, Ysbyty Glan Clwyd

Dyddiad yr arolygiad: 15/16 Mai 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd sicrhau y gall y staff weld y cleifion yn glir unwaith y byddant yn cyrraedd yr adran.	Gofal Urddasol a Pharchus	Oherwydd adeiledd ardal y dderbynfa mewn perthynas â'r ystafell aros, mae angen i'r adran ystadau wneud gwaith i osod drychau.	Rheolwr y Gwasanaeth Radioleg Canolog	30 Medi 2023
Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl wybodaeth a gaiff ei hanfon at y cleifion cyn triniaeth yn ddwyieithog.	Hawliau a Chydraddoldeb	Mae fersiynau Cymraeg o'r wybodaeth i gleifion ar gyfer meddygaeth niwclear bellach yn cael eu cynnwys gyda'r wybodaeth sy'n cael ei hanfon at gleifion a chaiff archwiliad ei gynnal ym mis Awst i gadarnhau'r cam gweithredu hwn.	Prif Radiograffydd ar gyfer Meddygaeth Niwclear a Radiograffydd Arweiniol yr Adran Meddygaeth	1 Medi 2023

			Niwclear Ganolog.	
Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y wybodaeth a gaiff ei chynnwys mewn llythyrau at atgyfeirwyr anfeddygol yn cynnwys risgiau ymbelydredd.	Atodlen 2 (e) ac (i) i Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	Caiff y wybodaeth am y dos ymbelydredd a anfonir yn y llythyr datgan meddygol blynyddol ei hychwanegu at ddatganiad blynyddol yr atgyfeirwyr anfeddygol.	Pennaeth Ansawdd a Llywodraethu Radioleg	Wedi'i gwblhau
Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y siart lefelau cyfeirio diagnostig sy'n cael ei harddangos yn cynnwys yr amrediad derbyniol o weithgareddau i'w gweinyddu.	Atodlen 2 (e) i Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	Wedi diweddarau'r lefelau cyfeirio diagnostig (fersiwn 7b) ar gyfer Gweithdrefnau Diagnostig Meddygaeth Niwclear (Yn weithredol o 20/7/23) - wedi'u diweddarau gyda'r gofyniad canlynol gan yr arolygwyr: Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y siart lefelau cyfeirio diagnostig sy'n cael ei harddangos yn cynnwys yr amrediad derbyniol o weithgareddau i'w gweinyddu. Atodlen 2 (e) i Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	Prif Radiograffydd ar gyfer Meddygaeth Niwclear	Wedi'i gwblhau

		NID yw gwerthoedd y lefelau cyfeirio diagnostig wedi cael eu newid o gwbl - ond mae colofn arall wedi cael ei hychwanegu ar y diwedd gydag amrediad o +/- 10% er mwyn helpu gweithredwyr i gadarnhau bod y cynnyrch a gaiff ei weinyddu o fewn yr amrediad lleol derbyniol.		
Dylai'r cyflogwr sicrhau bod canllawiau atgyfeirio ar gael ar gyfer biopsiau o nodau lymff sentinel.	Rheoliad 6(5)(a) o Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017	Caiff y weithdrefn ar gyfer cynnal biopsiau o nodau lymff sentinel ei diweddarau er mwyn cynnwys y meini prawf atgyfeirio. Mae llythyrau hawl blynyddol ar wahân wedi cael eu datblygu'n benodol ar gyfer biopsiau o nodau lymff sentinel.	Pennaeth Radiograff Proffesiynol	Wedi'i gwblhau

<p>Dylai'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mewn perthynas â'r achos busnes ar gyfer y newidiadau i'r lleoliad lle caiff therapiau eu darparu • I sicrhau bod yr ardal lle caiff y therapiau hyn eu darparu yn addas at y diben yn y cyfamser. 	<p>Diogel (Rheoli Risg)</p>	<p>Mewn perthynas â'r achos busnes, mae'r cyllid bellach wedi'i gymeradwyo. Mae cyllid wedi cael ei neilltuo ar gyfer y flwyddyn ariannol hon ac mae'r cynllun gweithredu yn cael ei lunio ar hyn o bryd.</p> <p>Mae asesiad risg wedi cael ei gwblhau mewn perthynas â diogelwch ymbelydredd.</p> <p>Mae lleoliadau eraill wedi cael eu hasesu yn ogystal ag effaith atal y gwasanaeth dros dro nes bod y gwaith adferol wedi'i gwblhau.</p> <p>Gan mai cleifion canser yw'r rhain, teimlwyd nad oedd yn briodol atal y gwasanaeth dros dro.</p> <p>Rydym yn ymdrechu i wneud yr ystafell yn fwy deniadol drwy gael gwared ar gyfarpar nad yw'n hanfodol ac mae sgriniau llenni dros dro wedi cael eu gosod.</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau Diagnostig a Chymorth Clinigol</p>	<p>Ionawr 2024</p> <p>31 Awst 2024</p>
--	-----------------------------	---	--	--

<p>Dylai'r cyflogwr sicrhau bod cofnodion RADIS yn cynnwys gweithgareddau a fesurwyd yn hytrach na'r lefelau cyfeirio diagnostig.</p>	<p>Atodlen 2 (e) i Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>Y frawddeg bwysig a ychwanegwyd yw 'The patients visit on the RIS system (RadIS) is to be completed. The dose recorded should equal the measured dose immediately prior to performing the injection in MBq (i.e. the dose recorded on the 'Daily Patient Dose Register'). Any CT dose should also be recorded (in DLP).' Rhoddwyd y cam gweithredu hwn ar waith ar ddiwrnod yr arolygiad a chafodd y weithdrefn ei diweddarau a'i chadarnhau yng nghyfarfod y Weithrediaeth Ansawdd a Diogelwch ym mis Mehefin 2023.</p>	<p>Radiograffydd Arweiniol yr Adran Meddygaeth Niwclear Ganolog</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p>
<p>Dylai'r cyflogwr sicrhau bod cofnodion hawliau a hyfforddiant yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u cofnodi'n ffurfiol mewn arfarniadau.</p>	<p>Rheoliad 17 ac Atodlen 2 (b) 7 i Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>Mae cwblhau hawliau a hyfforddiant/cymhwysedd mewn Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad yn un o ofynion y gwasanaeth radioleg. Mae cofnod enghreifftiol wedi'i atodi.</p> <p>Caiff archwiliad ei gynnal i gadarnhau bod y ddogfennaeth hon yn cael ei defnyddio mewn Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Perfformiad.</p>	<p>Rheolwr Gwasanaethau Proffesiynol Radiotherapi</p>	<p>Diwedd mis Medi 2023</p>

<p>Dylai'r cyflogwr sicrhau bod y tair set o weithdrefnau'r cyflogwr yn rhannu gwersi a ddysgwyd a gwybodaeth â'i gilydd.</p>	<p>Rheoliad 6 ac Atodlen 2 i Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017</p>	<p>Mae tystiolaeth o gyfeiriadau at y Pwyllgor Cyngori ar Roi Sylweddau Ymbelydrol wedi cael ei dileu o'r gweithdrefnau fferylliaeth.</p> <p>Bydd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Therapiau yn cynnull cyfarfod blynyddol ar gyfer arweinwyr meddygaeth niwclear, radiofferylliaeth a ffiseg feddygol mewn perthynas â therapïau radio-niwclid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd a gwybodaeth. Caiff canlyniad y cyfarfod hwn ei rannu yng nghyfarfod y Pwyllgor Diogelu rhag Ymbelydredd - ar gyfer 2023, bydd hwn ym mis Rhagfyr 2023.</p>	<p>Arweinydd Gwasanaethau Technegol Fferylliaeth</p> <p>Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Ofal lechyd a Gwyddonwyr Gofal lechyd</p> <p>Arbenigwr Ffiseg Feddygol</p> <p>Arweinydd Gwasanaethau Technegol Fferylliaeth</p> <p>Pennaeth Ansawdd a Llywodraethu Radioleg</p>	<p>Wedi'i gwblhau</p> <p>Rhagfyr 2023</p>
---	---	---	--	---

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Helen Hughes

Teitl swydd: Rheolwr Gwasanaethau Proffesiynol Radiotherapi/Cyfarwyddwr Cynorthwyol Therapiau

Dyddiad: 20 Gorffennaf 2023